# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Chwefror 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion amcan-gost y cynnig i ailenwi Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ45833)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pwy sy'n gyfrifol am gydlynu cynlluniau bwyta a choginio iach, ac ystyried bod cynlluniau'n cael eu cefnogi dan y portffolio iechyd, y portffolio addysg a'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol. (WAQ45851)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth ariannol y mae'r Gweinidog yn ei roi i awdurdodau lleol i hybu seiclo yng Nghymru. (WAQ45836)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa bryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cwblhau ei asesiad o'r cais gan Saethyddion Pentref ar gyfer Pencampwriaethau Saethyddiaeth Maes y Byd 2008. (WAQ45852)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa bryd y cyfarfu'r Gweinidog â Chronfa Dreftadaeth y Loteri ddiwethaf; pa asesiad a wnaeth o fuddsoddiad y Gronfa yn ardaloedd yr hen faes glo; ac a wnaiff ddatganiad am hyn. (WAQ45853)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Catherine Thomas (Llanelli):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n denu mewnfuddsoddiad i Lanelli. (WAQ45846)

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am greu swyddi yn ardal Llanelli. (WAQ45847)

**Catherine Thomas (Llanelli):** Pa gefnogaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hybu twristiaeth yn Llanelli. (WAQ45858)

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am gymorth rhanbarthol dewisol a grantiau buddsoddi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llanelli. (WAQ45849)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa gontractau hysbysebu a roddwyd dramor gan Awdurdod Datblygu Cymru, ac i bwy. (WAQ45854)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo seiclo mewn ysgolion. (WAQ45834)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Beth yw'r meini prawf ar gyfer dyrannu'r Gronfa Ysgolion Bach. (WAQ45835)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi'r Gweinidog ar ysgolion yn creu gerddi llysiau fel rhan o'r cynlluniau bwyta'n iach. (WAQ45855)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi'r Gweinidog ar roi pwerau disgyblu i athrawon y tu allan i dir yr ysgol. (WAQ45856)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi'r Gweinidog ar ddysgu ffoneg mewn ysgolion. (WAQ45857)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Mewn faint o ysgolion cynradd yn y Rhondda y mae +40% o'r disgyblion yn cael prydau bwyd am ddim. (WAQ45858)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** I ba raddau y rhoddwyd sylw i'r gwersi a ddysgwyd gan brosiect On Track llwyddiannus Tylerstown yn y strategaeth 'Dechrau'n Deg'. (WAQ45859)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** I ba raddau y rhoddwyd sylw i'r profiad a gafwyd gyda'r prosiect On Track yn Tylerstown wrth lunio'r Strategaeth Gofal Plant i Gymru. (WAQ45860)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** I ba raddau y rhoddwyd sylw i'r profiad a gafwyd gyda'r prosiect On Track yn Tylerstown wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Rhianta. (WAQ45861)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn unrhyw geisiadau am ailddiffinio ffiniau'r ardaloedd strategol a nodwyd yn TAN 8 ac, os felly, a yw wedi cytuno iddynt. (WAQ45837)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd busnesau ffermydd bach yng Nghymru. (WAQ45838)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth y drefn gynllunio o ran sicrhau bod anghenion a gofynion busnesau ffermydd bach yn cael eu

diwallu. (WAQ45839)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Yn dilyn WAQ44425, a wnaiff y Gweinidog roi cyfarwyddyd i archfarchnadoedd yng Nghymru ddefnyddio rhywbeth yn lle bagiau plastig taflu-i-ffwrdd. (WAQ45862)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi’r Gweinidog ar amseru torri/plygu gwrychoedd gan ffermwyr. (WAQ45863)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**John Marek (Wrecsam)** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y digwyddiad swyddogol diwethaf y gofynnodd i aelod o’r cynulliad, nad yw’n aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru, fynd iddo ar ei rhan. (WAQ45850)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Faint o gyflog ar gyfartaledd a delir i aelodau cabinet cynghorau yng Nghymru; a pha gymhariaeth a wnaeth y Gweinidog rhwng y rhain â chyflogau cabinet cynghorau awdurdodau tebyg eu maint yn Lloegr. (WAQ45875)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw’r amserau ymateb a gyflawnir gan ambiwlansau yn ardal BILl Rhondda Cynon Taf. (WAQ45864)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa bolisïau a luniwyd i hyrwyddo penodi Meddygon Teulu ar gyflog a chadw Meddygon Teulu yn y cymoedd. (WAQ45865)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau bwyta a choginio'n iach a hyrwyddir gan ei adran. (WAQ45866)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Yn dilyn WAQ44134, a wnaiff y Gweinidog nodi’r cynnydd blynyddol mewn cyflogau ar gyfartaledd ar gyfer (a) Meddygon Ymgynghorol (b) Meddygon Teulu a (c) nyrsys. (WAQ45867)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Yn dilyn WAQ44134, a wnaiff y Gweinidog wahaniaethu rhwng y costau staff yr ymrwymwyd iddynt er mwyn cyflogi staff newydd a’r cynnydd mewn cyflogau’n gyffredinol. (WAQ45868)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi’r Gweinidog ar gyfer canolfannau byw’n iach ac a oes unrhyw ganolfannau o’r fath wedi’u noddi drwy gyfrwng cronfeydd y loteri yng Nghymru. (WAQ45869)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Yn dilyn WAQ44426, a yw adolygiad y Gwasanaeth

Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol o astudiaeth Palmer et al wedi'i gyhoeddi bellach. (WAQ45870)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Faint o bractisiau Meddygon Teulu sydd, yn ôl y Fforwm Ystadau Gofal Sylfaenol, yn wynebu problemau difrifol o ran llog uchel ar fenthyciadau meddygfeydd neu ddiffyg ecwiti. (WAQ45871)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pwy yw aelodau Cydbwyllgor Ymgynghorol y Gwasanaeth Fferyllol a pha fudd masnachol sydd ganddynt mewn fferylliaeth/fferyllfeydd. (WAQ45872)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnyddio llety dros nos mewn hosteli wrth ddarparu gwasanaethau ymyriadau buan ac ataliol i deuluoedd a phlant. (WAQ45873)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw'r safonau gofynnol a sefydlwyd gan AGCC ar gyfer gwasanaethau ymyriadau buan ac ataliol i deuluoedd a phlant a gynigir mewn llety dros nos mewn hosteli (WAQ45874)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyflenwadau ocsigen i'r cartref sydd ar gael yng Nghymru. (WAQ45888)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Catherine Thomas (Llanelli):** Sut mae'r Gweinidog wedi cefnogi'r twf parhaus yn yr economi gymdeithasol yn Llanelli. (WAQ45840)

**Catherine Thomas (Llanelli):** Sut mae'r Gweinidog wedi cefnogi'r twf parhaus yn yr economi gymdeithasol yn Llanelli/ (WAQ45840)

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru at fwrw ymlaen ag adfywio economaidd yn Llanelli. (WAQ45841)

**Catherine Thomas (Llanelli):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i wella cyfleusterau cymunedol yn Llanelli. (WAQ45842)

**Catherine Thomas (Llanelli):** Faint o arian o'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a ddyrannwyd i Lanelli er 2003, ac a all y Gweinidog roi dadansoddiad ohono. (WAQ45843)

**Catherine Thomas (Llanelli):** Pa gamau a gymerwyd i gefnogi adfywio cymunedau yn Llanelli. (WAQ45844)

**Catherine Thomas (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llanelli. (WAQ45845)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pam fod rhaid hysbysebu swyddi Cymunedau yn Gyntaf yn y Western Mail ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost hysbysebu swyddi ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. (WAQ45876)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ystyried caniatáu i is-wardiau ddod yn wardiau Cymunedau yn Gyntaf. (WAQ45877)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Yn dilyn WAQ44431, a wnaiff y Gweinidog nodi sut mae’r gwersi a ddysgwyd yn sgîl prosiect On Track wedi’u prif-ffrydio drwy bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru; pa wersi a ddysgwyd a pha feysydd o bolisi’r llywodraeth yr effeithiwyd arnynt. (WAQ45878)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i ddarparu cymorth ariannol neu gymorth arall ar gyfer pobl dlawd o ran tanwydd nad ydynt yn oedrannus. (WAQ45883)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru annog cyflenwyr ynni i ddilyn yr esiampl a ddangoswyd gan Ddwr Cymru a chynnig tariffiau cymdeithasol i ddefnyddwyr ar incwm isel i’w helpu i ymdopi â’r cynnydd mewn prisiau. (WAQ45884)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog sôn am ba waith sy’n cael ei wneud i ddileu tlodi tanwydd yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle nad oes cysylltiad â’r rhwydwaith nwy. (WAQ45885)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog sicrhau y gwneir mwy i annog pobl i hawlio’u budd-daliadau a’u helpu drwy’r broses o’u hawlio, er mwyn cynyddu incwm y rheiny sy’n byw mewn tlodi tanwydd. (WAQ45886)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau a gymerwyd gan y Gweinidog, ar ôl gwerthusiad interim o’r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, i dargedu’r cynllun yn well er mwyn cyrraedd mwy o gartrefi lle ceir tlodi tanwydd. (WAQ45887)

## *Gofyn i un o gynrychiolwyr Pwyllgor y Ty*

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Pa bryd y gwnaeth Pwyllgor y Ty benderfyniad ffurfiol i fabwysiadu’r enwau uniaith ‘Siambr’, ‘Cwrt’, ‘Neuadd’ ac ‘Oriel’ i’w defnyddio yn yr adeilad newydd. (WAQ45879)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Beth yw polisi Pwyllgor y Ty ar ddefnyddio arwyddion dwyieithog ynteu uniaith yn adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ45880)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** Ym mha un o gyfarfodydd Pwyllgor y Ty y penderfynwyd mabwysiadu'r enw 'Senedd' ar gyfer yr adeilad newydd. (WAQ45881)

**Leighton Andrews (Y Rhondda):** A fu pleidlais ffurfiol erioed ym Mhwyllgor y Ty o blaid rhoi'r enw 'Senedd' ar yr adeilad newydd. (WAQ45882)